

## Pwyllgor Rhanbarth y De Orllewin SWWR-07-00(min)

### COFNODION

**Dyddiad:** Dydd Gwener, 8 Rhagfyr 2000

**Amser:** 10.00 am hyd 1.00pm

**Lleoliad:** Queen's Hall, Arberth, Sir Benfro

**Yn bresennol:** **Aelodau**

Alun Cairns (Cadeirydd)

Peter Black

Glyn Davies

Janet Davies

Delyth Evans

Val Feld

Brian Gibbons

Dai Lloyd

Rhodri Glyn Thomas

**Cyflwynwyr:** Richard Crawshaw

**Awdurdod Iechyd Dyfed Powys**

Margret Price

Stuart Gray

Dr William Ritchie

Dr Lyn Harris

Tony Hurrell

Joanne Smith

Paul Lorimer

Laugharne Griffith-Jones

Barbara Wilson

**Iechyd Morgannwg**

Hugh Thomas

David Cliffe

Dr Quentin Sandifer

Glynis Tranter

Sue Morris

Andrew Bellamy

Liz Bratton

Peter Edwards

**Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor**

Jane Westlake

Claire Morris

Gorllewin De Cymru

Gorllewin De Cymru

Canolbarth a Gorllewin Cymru

Gorllewin De Cymru

Canolbarth a Gorllewin Cymru

Dwyrain Abertawe

Aberafan

Gorllewin De Cymru

Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr

Fforwm Economaidd De Orllewin Cymru

Cadeirydd

Prif Weithredwr

Cyfarwyddwr Polisi Iechyd y Cyhoedd ac Iechyd y Cyhoedd

Ymgynghorydd Meddygaeth Iechyd y Cyhoedd

Rheolwr Cyffredinol, Grp Iechyd Lleol Sir Gaerfyrddin

Rheolwr Cyffredinol, Grp Iechyd Lleol Sir Benfro

Prif Weithredwr Dros Dro, Ymddiriedolaeth NHS Sir Benfro

Cyfarwyddwr Cynllunio a Datblygu Ymddiriedolaeth NHS Sir Gaerfyrddin

Prif Swyddog, Cyngor Iechyd Cymuned Sir Benfro

Cadeirydd

Cyfarwyddwr Gwella Iechyd a Rheoli Perfformiad

Cyfarwyddwr Iechyd y Cyhoedd

Uwch Reolwr, Datblygu Strategol

Cyfarwyddwr Cynllunio, Ymddiriedolaeth NHS Bro Morgannwg

Cyfarwyddwr Datblygu Corfforaethol, Ymddiriedolaeth NHS Abertawe

Rheolwr Cyffredinol, Grp Iechyd Lleol Abertawe

Ymarferydd Cyffredinol/Aelod o'r Bwrdd,

Grp Iechyd Lleol Abertawe

Clerc y Pwyllgor

Dirprwy Glerc y Pwyllgor

### **Eitem 1: Ymddiheuriadau ac Eilyddion**

#### 1.1 Derbyniwyd ymddiheuriadau oddi wrth:

Nick Bourne

Andrew Davies

Richard Edwards

Christine Gwyther

Edwina Hart

Helen Mary Jones

Gwenda Thomas

Canolbarth a Gorllewin Cymru

Gorllewin Abertawe

Preseli Sir Benfro

Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro

Gyr

Llanelli

Castell-nedd

1.2 Estynnodd y Cadeirydd groeso i'r Cyng Feetham, Maer Arberth, i'r cyfarfod.

1.3 Atgoffodd y Cadeirydd yr aelodau o'r gofyniad, o dan Reol Sefydlog 4.5, i ddatgan unrhyw fuddiannau cyn cymryd rhan yn y trafodion. Datganwyd diddordeb gan Dai Lloyd fel Ymarferydd Cyffredinol.

## **Eitem 2 Cynllun Datblygu Hygyrchedd Deng Mlynedd i Dde Orllewin Cymru**

### **Papur SWWR-07-00(p.1)**

2.1 Ymddiheurodd Richard Crawshaw fod cynrychiolwyr eraill Fforwm Economaidd De Orllewin Cymru yn methu bod yn bresennol a chyflwynodd bapur y Fforwm Economaidd. Yr oedd gan y Fforwm Economaidd nifer o weithgorau a'r un sy'n ymdrin â seilwaith oedd wedi llunio'r papur.

2.2 Pryder pennaf y Fforwm oedd nad yw'r seilwaith yn Ne Orllewin Cymru wedi'i ddatblygu'n ddigonol a'i fod yn llyffetheirio datblygiad economaidd y rhanbarth. Yr oedd yn rhaid wrth gefnogaeth o du'r llywodraeth i ddiweddarau'r seilwaith a helpu'r rhanbarth i gystadlu.

2.3 Nid oedd y cyflenwad nwy i'r rhanbarth yn ddigonol. Yn 1998 cynhaliwyd astudiaeth ar ran Transco, gyda'r drafft cyntaf yn cael ei lunio yng Ngorffennaf 1999, ond yr oedd gwallau ynddo. Ers hynny cyflwynwyd dau ddrafft pellach i'r Cynulliad Cenedlaethol, ond ni chafodd y rhain eu derbyn. Yr oedd yr ymgynghorwyr a'r Cynulliad Cenedlaethol yn anghytuno ar ba weithredu sy'n ofynnol. Yr oedd y Fforwm Economaidd wedi ysgrifennu at y Gweinidogion, ond ni chafodd cynnwys yr adroddiad ei gyhoeddi ac nid oedd gan y Fforwm Economaidd unrhyw wybodaeth am ymateb y Cynulliad i'r adroddiad.

2.4 Mewn ymateb i sylwadau a chwestiynau gan yr Aelodau, dywedodd Mr Crawshaw:

- Dylai papur Fforwm Economaidd De Orllewin Cymru fod wedi cyfeirio at ffynonellau ynni adnewyddadwy; byddai angen cymorth o Ewrop i ymchwilio i botensial ynni adnewyddadwy.
- Yr oedd yn bwysig cau'r bylchau yn y cyflenwadau ynni traddodiadol eu natur, yn ogystal ag ystyried ynni adnewyddadwy.
- Yr oedd y cyflenwadau nwy ar draws De Cymru yn annigonol, ond gwaethygai'r problemau po bellaf y teithiai rhywun tua'r gorllewin.
- Gellid ymchwilio i'r potensial i sefydlu dolenni cyswllt ar draws y môr gyda phorthladdoedd yn Ewrop o dan y rhaglen Interreg III.
- Nid oedd papur y Fforwm Economaidd wedi'i gostio; allosodiad o'r cyllid sy'n cael ei awgrymu ar gyfer Lloegr a'r Alban oedd y cyfeiriad at £534 miliwn dros y deng mlynedd nesaf.
- Pwyntiau'r papur at rai o'r pethau yr oedd angen eu gwneud. Rôl y Fforwm Economaidd oedd cyd-drefnu syniadau ei bartneriaid a phwyso am weithredu.
- Erbyn hyn yr oedd rhaglen Interreg III yn dechrau gweithredu a byddai'n help i atgyfnerthu'r cyswllt ag Iwerddon, ond dim ond arian ar gyfer astudiaethau a geid drwy Interreg III, nid ar gyfer gwaith adeiladu.
- Cymharol ychydig fyddai'r nawdd Amcan Un a gâi ei ddarparu tuag at seilwaith.
- Yr oedd y pedwar awdurdod lleol a gynrychiolir ar y Fforwm Economaidd yn gytûn bod gwella'r A40 i'r gorllewin o Sanclêr yn flaenoriaeth.
- Teimlai'r Fforwm Economaidd yn gryf y dylai swyddogaethau Adran yr Amgylchedd, Trafnidiaeth a'r Rhanbarthau, y cyfeiriwyd atynt yn y papur, gael eu datganoli i'r Cynulliad Cenedlaethol.
- Golygai lleoliad De Orllewin Cymru, ar gyrion y Deyrnas Unedig ac Ewrop, ei bod yn bwysicach fyth i'r rhanbarth fod ar y blaen o ran arfer technoleg cyfathrebu newydd.
- Byddai'r Fforwm Economaidd yn darparu mwy o wybodaeth am ei farn ynglŷn â chyllido buddsoddiad cyfalaf ym maes telegyfathrebu (para 10.2 o'r papur).

2.5 Mynegwyd pryder gan yr aelodau ynglŷn â methiant y Cynulliad Cenedlaethol i ymateb i adroddiad yr ymgynghorydd ar y cyflenwad nwy i ranbarth De Orllewin Cymru.

### **Gweithredu**

2.6 Byddai'r Fforwm Economaidd yn darparu ar gyfer yr aelodau:

- gopi o ymateb Mike German, y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd, i adroddiad yr ymgynghorydd ar gyflenwadau nwy; a
- mwy o wybodaeth am gyllido buddsoddiad cyfalaf ym maes telegyfathrebu.

2.7 Byddai'r Cadeirydd yn ysgrifennu at y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd ac at Gadeirydd y Pwyllgor Datblygu Economaidd ynglŷn â'r adroddiad ar gyflenwadau nwy a gomisiynwyd gan Transco.

### **Eitem 3 Awdurdod Iechyd Dyfed Powys : Rhaglen Gwella Iechyd**

3.1 Cyflwynodd Cadeirydd y Pwyllgor, Mrs Margret Price, y siaradwyr. Cyfeiriodd at y cynnydd yr oedd yr Awdurdod yn ei wneud o ran goresgyn ei broblemau a dywedodd fod yr arian newydd a ddarparwyd gan y Cynulliad yn cael ei ddefnyddio i newid a gwella'r gwasanaethau, yn hytrach nag i gynnal dyledion. Rhoddodd Dr William Ritchie, Cyfarwyddwr Polisi Iechyd ac Iechyd y Cyhoedd, gyflwyniad byr i'r gwaith o baratoi Rhaglen Gwella Iechyd yr Awdurdod a chyfraniad y partner sefydliadau.

3.2 Gwahoddwyd aelodau'r cyhoedd i roi eu cwestiynau a'u sylwadau i'r cyflwynwyr a'r Pwyllgor.

3.2.1 Croesawai Luke Conlon, Cyfarwyddwr MIND Sir Benfro, ymrwymiad yr Awdurdod i ddatblygiadau cymunedol, megis gwella'r cyfleoedd i bobl sydd â phroblemau iechyd meddwl i gael gwaith a thai.

3.2.2 Ymatebodd Dr Lyn Harris, Ymgynghorydd Meddygaeth Iechyd y Cyhoedd, Awdurdod Iechyd Dyfed Powys, gan ddweud bod yna nifer o gynlluniau ar waith drwy'r Strategaeth Iechyd Meddwl, gyda'r nod o rymuso a sicrhau mynediad. Gweithiai'n agos iawn gyda defnyddwyr a chynhalwyr a'r neges a geid yn gyson gan y grp hwnnw oedd bod cyflogaeth fuddiol a thai yn hynod bwysig er mwyn helpu pobl i ailsefydlu eu hunain yn y gymuned.

3.3 Mewn ymateb i gwestiynau gan yr aelodau, ymatebodd cynrychiolwyr yr Awdurdod Iechyd a'i bartneriaid fel a ganlyn:

- Yr oedd rôl awdurdodau iechyd wedi newid ers sefydlu'r Cynulliad. Yr oedd yr Awdurdod yn gweithio gyda'r Grwpiau Iechyd Lleol i ddiffinio rolau a chyfrifoldebau o fewn y partneriaethau yn gliriach.
- Nid oedd unrhyw gynlluniau ar y pryd i resymoli darpariaeth yr ysbytai dosbarth cyffredinol er y gallai'r agenda llywodraethu clinigol olygu bod gofyn newid y ffordd yr ymdrinnir â darparu gwasanaethau yn gyffredinol.
- Yr oedd gwaith yn mynd rhagddo i ddatblygu cymunedau fel eu bod yn helpu pobl i newid eu ffordd o fyw, a bu hyn yn effeithiol iawn. Yr oedd yna hefyd ystod gyfan o gynlluniau wedi'u targedu at feysydd allweddol, megis camddefnyddio sylweddau a hyrwyddo ffordd iach o fyw mewn ysgolion. Byddai Joanne Smith yn anfon copi o'r Cynllun Gweithredu ar Iechyd ar gyfer Grp Iechyd Lleol Sir Benfro at yr aelodau. Ceir mwy o fanylion yn y Cynllun Gweithredu am yr ystod gwasanaethau sydd ar gael.
- Câi cyfarfod ei gynnal gydag Iechyd Morgannwg yn y Flwyddyn Newydd i sicrhau bod y perthnasau sy'n ofynnol er mwyn cael rhwydweithiau clinigol llwyddiannus a gweithio'n llwyddiannus drwy bartneriaeth wedi'u sefydlu.
- Yr oedd cytundeb llinell sylfaen wedi'i sefydlu o safbwynt y gwasanaethau a ddarperir gan Iechyd Morgannwg ac yr oedd trafodaethau ar y gweill ynglŷn ag eitemau arbenigol, megis gwasanaethau gofal dwys a chyffuriau arbenigol.
- Cyflwynwyd cais am Nawdd Cyfleoedd Newydd er mwyn helpu i ddatblygu rhaglen byw'n iach yn Sir Benfro.
- Yr oedd gwaith yn mynd rhagddo ar y pryd i asesu perfformiad yr Awdurdod yn erbyn Strategaeth Camddefnyddio Sylweddau y Cynulliad a byddid yn cytuno ar gynllun gweithredu a'r blaenoriaethau oddi mewn iddo.
- Nid oedd galluogi pobl ddigartref i gyrchu at ofal iechyd yn broblem fawr yn Nyfed Powys.
- Byddai'r Fframwaith Iechyd Meddwl yn cynnwys darpariaeth ar gyfer pobl ddigartref sydd â salwech meddwl.
- Yr oeddid yn cydweithredu gyda llywodraeth leol. Er enghraifft, yr oedd gan Gaerfyrddin bartneriaethau trosedd ac anhrefn, gyda chynrychiolaeth o feysydd iechyd, tai, addysg a'r gwasanaethau cymdeithasol.
- Cydnabyddid bod angen gwella mynediad at rai gwasanaethau trydyddol, a theimlid y byddai moderneiddio'r gwasanaethau drwy newid clinigol yn golygu y gellid darparu gwasanaethau tecach.
- Yr oedd yr Awdurdod Iechyd yn buddsoddi yng ngwasanaethau'r galon i sicrhau ei fod yn cydymffurfio â'r fframwaith gwasanaeth cenedlaethol.
- Defnyddiwyd Grantiau Anogaeth o du'r Cynulliad Cenedlaethol i wella'r gwasanaethau deintyddol mewn ardaloedd gwledig a chynhaliwyd arolwg o'r gwasanaethau deintyddol cymunedol er mwyn ceisio sicrhau bod gwasanaethau cydradd yn cael eu darparu ar draws ardal yr Awdurdod.
- Tybid y byddai'r Awdurdod yn cael anhawster i gwrdd â'r targed a bennwyd gan y Cynulliad o ran marwolaethau yn sgîl damweiniau. Un rheswm am hynny oedd bod y ffordd yn Nyfed Powys gymaint hirach nag yn unrhyw ran arall o Gymru a bod

marwolaethau ar y ffyrdd yn cyfrannu'n sylweddol at y gyfradd marwolaethau drwy ddamwain. Ceid marwolaethau drwy ddamweiniau hefyd yn y sector amaethyddol. Yr oedd gwaith ar gynlluniau atal damweiniau ar y gweill drwy'r Cynghreiriau Iechyd ac yr oedd hwn hefyd yn faes gwaith allweddol i'r partneriaethau trosedd ac anhrefn.

- Yr oedd yr Awdurdod yn ymwybodol o adroddiad Pwyllgor Archwilio'r Cynulliad Cenedlaethol ar gostau presgripsiynau. Yr oedd yn ceisio cael gafael ar feddalwedd a fyddai'n help i ddadansoddi'r wybodaeth ar bresgripsiynau. Câi hynny ei lyffetheirio ar y pryd gan nad oedd y ffigurau diweddaraf ar gael.
- Cydnabyddid rôl meddygaeth breifat fel partner ond nid oedd gan yr Awdurdod bolisi ar feddygaeth breifat, fel y cyfryw.
- Nid oedd unrhyw faterion llywodraethu clinigol o bwys yn ymwneud â risg sylweddol neu berfformiad gwael yn Sir Benfro.

## Gweithredu

- Yr aelodau i dderbyn copi o Gynllun Gweithredu Sir Benfro ar Iechyd.

## **Eitem 4 Sesiwn Meicroffon Agored**

### 4.1 Gwahoddwyd aelodau'r cyhoedd i roi eu cwestiynau a'u sylwadau i'r Pwyllgor.

Cyflwynodd **Mr Luke Conlon, Cyfarwyddwr Mind Sir Benfro**, galendr a luniwyd gan ddefnyddwyr canolfan adnoddau Mind yn Hwlfordd i'r Cadeirydd (câi'r calendr ei arddangos yn Llyfrgell y Cynulliad Cenedlaethol). Cyllidwyd y prosiect yn rhannol gan Gyngor Hyfforddiant a Menter Gorllewin Cymru ac o ganlyniad iddo yr oedd rhai pobl wedi cael cynnig swyddi.

Gofynnodd **Mr John Gilson** pam yr oedd y Cynulliad Cenedlaethol wedi cadarnhau is-ddeddf yn gwahardd cn oddi ar draethau Dinbych-y-pysgod, er gwaethaf deiseb â 1200 o lofnodau arni yn ei gwrthwynebu.

Ymatebodd yr aelodau gan ddweud na chymerir penderfyniadau o'r fath yn ysgafn, ond fod yna faterion iechyd y cyhoedd i'w hystyried. Dadleuodd Mr Gilson y byddai'r môr yn cael gwared ag unrhyw ddrwg mewn baw cn, ac y byddai'n well i'r awdurdod lleol ddefnyddio ei adnoddau yn sicrhau bod perchenogion cn yn glanhau ar eu hôl yn hytrach nag yn erlid pobl sy'n mynd â'u cn am dro ar y traeth. Dywedodd y Cadeirydd y byddai'n cyfeirio sylwadau Mr Gilson at y Gweinidog, Sue Essex.

Gofynnodd **Dr D Van Steenis MBBS** pam nad oedd y Cynulliad Cenedlaethol yn mynnu bod Awdurdod Iechyd Dyfed Powys, Cyngor Sir Penfro ac Asiantaeth yr Amgylchedd yn gorfodi darpariaethau Deddf Gwarchod yr Amgylchedd 1990 o safbwynt yr effeithiau andwyol a gaiff prosesau diwydiannol y purfeydd olew ar iechyd.

Mewn ymateb nodwyd bod Cyngor Bwrdeistref Castell-nedd Port Talbot yn datblygu cynllun rheoli'r aer ar y cyd â Corus, BP Bae Baglan ac Awdurdod Iechyd Morgannwg. Nod y cynllun oedd mynd i'r afael â'r llygredd aer a achosir gan ddiwydiant trwm a chan allyriannau traffig oddi ar yr M4.

Gofynnodd **Mr Bob Hathaway** pam y byddai'r ardoll ychwanegol yn cael ei chodi ar y Dreth Gyngor eto eleni. Mynegodd bryder hefyd y byddai'r wybodaeth am godau post a daliadaeth tai y gofynnwyd amdani mewn arolwg gan Wasanaeth Tân y Canolbarth yn golygu bod modd adnabod y rhai o ardaloedd gwledig a oedd wedi ymateb.

Mewn ymateb eglurwyd bod y grant cynnal refeniw oddi wrth y Cynulliad Cenedlaethol yn cael ei ddyrannu i'r awdurdodau lleol ar sail fformwla. Yn y flwyddyn gyfredol yr oedd hynny'n cynnwys elfen i gynorthwyo'r awdurdodau hynny a'i câi'n fwyaf anodd cadw eu treth gyngor i lawr. O'r flwyddyn nesaf câi'r fformwla ei newid i adlewyrchu anghenion yr awdurdodau, ond byddai'r Cynulliad Cenedlaethol yn darparu arian ychwanegol am gyfnod trosiannol o dair blynedd i'r awdurdodau hynny sydd â'r problemau mwyaf.

Castell-nedd Port Talbot oedd â'r gyfradd Treth Gyngor uchaf yng Nghymru, er ei bod yn un o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig. Yr oedd y Cynulliad yn rhoi sylw i anghyfiawnder sefyllfa sy'n golygu bod pobl yno, ac mewn ardaloedd difreintiedig eraill, yn talu cyfradd uwch o Dreth Gyngor na phobl yn rhannau mwy llewyrchus Caerdydd.

Tynnwyd sylw at y ffaith nad oedd pob plaid wedi cefnogi'r mesurau arfaethedig, ond yr oedd mwyafrif yn y Cynulliad wedi cytuno i'r newidiadau.

Dyweddod y Cadeirydd y byddai sylwadau Mr Hathaway am Arolwg y Frigâd Dân yn cael eu pasio ymlaen.

Mynegodd y **Cyng B R Morse** ei bryder ynglŷn â'r cynigion i storio gwastraff niwclear yn Nhre-cn.

Dyweddwyd wrtho fod rhai o Aelodau'r Cynulliad yn rhannu ei bryder a'u bod wedi llofnodi deiseb yn erbyn y cynigion.

Cyfeiriodd **Ms Heather Sutton** at iechyd cymharol wael pobl Cymru o'i gymharu â gwledydd eraill yn Ewrop. Gofynnodd i'r aelodau a oeddynt o'r farn bod yna berthynas rhwng llygredd a nifer yr achosion o ganser, a holodd a oeddynt yn ymwybodol o ymchwiliad barnwrol i ystyried a ddylid ailddosbarthu gwastraff gwenwynig fel tanwydd.

Tynnodd aelodau sylw at y ffaith nad oes unrhyw ddata i gadarnhau'r ofnau am y dolenni cyswllt a bod angen casglu tystiolaeth leol. Yr oedd angen mapio ansawdd yr aer a phe bai gwastraff gwenwynig yn cael ei losgi fel tanwydd yr oedd yn hanfodol bod yr allyriannau yn cael eu ffiltro'n effeithiol.

Tynnodd y **Cyng Barry Woolmer** sylw at y gwahaniaethau rhwng y pedair sir yn y rhanbarth: Castell-nedd Port Talbot ac Abertawe yn y dwyrain a Sir Benfro a Sir Gaerfyrddin yn y gorllewin. Teimlai fod y siroedd gorllewinol yn cael eu gwthio i'r cyrion gan y rhai dwyreiniol.

Eglurodd y Cadeirydd fod yna amrywiaeth yn y rhanbarth, ond bod y rhanbarthau wedi'u seilio ar ffiniau'r Awdurdod Datblygu. Cydnabyddid y gallai fod yna ffyrdd eraill o osod y ffiniau.

## **Eitem 5 Iechyd Morgannwg : Rhaglen Gwella Iechyd**

5.1 Cyflwynodd Hugh Thomas, Cadeirydd Awdurdod Iechyd Morgannwg, y siaradwyr. Croesawai Iechyd Morgannwg broses y Rhaglen Gwella Iechyd (HIP) a'r cyfle i weithio mewn partneriaeth. Yr oedd angen dal y ddysgl yn wastad rhwng y blaenoriaethau a osodir gan y Cynulliad a'r rheini a nodir yn lleol.

5.2 Rhoddodd David Cliffe, y Cyfarwyddwr Gwella Iechyd a Rheoli Perfformiad, gyflwyniad byr i Raglen Gwella Iechyd yr Awdurdod. Ceir copi o'i gyflwyniad ynghlwm yn Atodiad A.

5.3 Nid oedd unrhyw gwestiynau na sylwadau o'r oriel gyhoeddus. Mewn ymateb i gwestiynau gan yr aelodau, ymatebodd cynrychiolwyr yr Awdurdod Iechyd a'i bartneriaid fel a ganlyn:

- Mater i Awdurdod Iechyd Dyfed Powys ac Ymddiriedolaeth NHS Abertawe yn bennaf yw'r trefniadau cyllido rhyngddynt, ond yr oedd gan yr Awdurdod Iechyd rywfaint o lais. Yr oedd y berthynas wedi gwella'n sylweddol dros y chwech i'r naw mis diwethaf. Yr oedd rhai materion yn dal heb eu datrys a'r gobaith oedd y byddai'r rhain yn dirwyn i ben yn fuan.
- Yr oedd trigolion Sir Gaerfyrddin yn ceisio lefel gynyddol o ofal brys oddi wrth Ymddiriedolaeth NHS Abertawe a phe na byddid yn cynyddu'r ddarpariaeth yn Llanelli a Chaerfyrddin byddai hynny'n effeithio ar allu Abertawe i ddelio â phwysau brys.
- Nid oedd y ffaith na chyfeirir yn benodol at leiafrifoedd ethnig yn yr HIP yn awgrymu nad oedd dim yn cael ei wneud. Fel rhan o'r ymgynghoriad â'r cyhoedd ar yr HIP drafft cafwyd sylwadau gan grwpiau lleiafrifoedd ethnig. Yn ogystal, yr oedd llawer iawn o waith wedi'i wneud, ynghyd â phartneriaid, i baratoi fframwaith i asesu anghenion ceiswyr nodded er mwyn sicrhau mynediad at wasanaethau gofal sylfaenol ac eilaidd.
- Yr oedd yr Awdurdod wrthi ar hyn o bryd yn adolygu'r gwasanaethau gofal lliniarol. Yng nghyd-destun cleifion canser yr oedd hynny'n bennaf er y cydnabyddid bod yna lawer o gyflyrau eraill lle mae angen gofal lliniarol. Lanswyd prosiect llwybrau clinigol yn gynharach yn y flwyddyn gyda'r nod o ddarparu cymorth i staff, perthnasau a chynhalwyr cleifion sydd ag afiechyd terfynol.
- Un nodwedd amlwg iawn yn ymatebion y cyhoedd i'r ymgynghoriad HIP oedd darparu gwasanaethau trin traed. Mae Ymddiriedolaeth NHS Abertawe yn cynnal gwasanaeth trin traed ar ddwy lefel, un wedi'i seilio mewn ymarfer cyffredinol a'r llall yn yr Ymddiriedolaeth, ac yr oedd gormod o alw ar y naill a'r llall. Cytunwyd y dylid integreiddio'r ddau wasanaeth fel y byddai'r bobl sy'n fwyaf eu hangen yn cael sylw'n gyflym yn lleol ac y byddai'r rhai nad oes angen triniaeth arnynt ar gymaint o frys yn cael eu trin mewn clinig canolog.
- Nid oedd yr Awdurdod yn ymwybodol bod mwy o ddefnydd o'r cynllun tocynnau rhoi'r gorau i ysmegu yn cael ei wneud yn Nyfed Powys ond byddai'n ymchwilio i'r mater ac yn darparu ymateb ysgrifenedig arno.
- Nid oedd yr Awdurdod wedi mabwysiadu polisi ffurfiol i sgrinio'r boblogaeth am ganser y prostad ond yr oedd Ymddiriedolaeth

NHS Abertawe wedi cyflwyno clinig Antigen Penodol i'r Prostad gyda mynediad cyflym iddo.

- Cadarnhaodd Cadeirydd yr Awdurdod Iechyd fod penderfyniad wedi'i wneud gan y Bwrdd ar ddyfodol Ysbyty Coffa Clydach a bod cais am gyllid wedi'i gyflwyno i'r Cynulliad.
- Cydnabyddid bod pobl ddigartref yn cael anhawster i gyrchu at wasanaethau iechyd yn Abertawe. Yr oedd cysylltiad agos rhwng y mater hwn a chamddefnyddio sylweddau ac yr oedd gwaith ar y gweill ar draws yr Awdurdod i adolygu'r modd y comisiynir gwasanaethau ar gyfer y grp neilltuol hwn o bobl. Penodwyd ymgynghorydd yn ddiweddar i symud y broses hon yn ei blaen. Câi gwybodaeth ei darparu am y ddarpariaeth yng Nghastell-nedd Port Talbot.
- Cydnabyddid yr angen i ddatblygu'r holl wasanaethau therapi i blant ac yr oedd blaenoriaeth uchel wedi'i rhoi i hyn fel maes datblygu. Cwblhawyd adolygiad o'r datganiadau angen ar blant yn Abertawe yn ddiweddar a daeth yr Ymddiriedolaeth, yr awdurdod addysg a'r gwasanaethau cymdeithasol i gytundeb ynglŷn â dyrannu adnoddau. Tynnwyd sylw at yr anhawster cyffredinol i recriwtio therapyddion lleferydd ac yr oedd yr angen am therapyddion lleferydd Cymraeg eu hiaith yn gymhlethdod ychwanegol.
- Nid oedd yr Awdurdod yn comisiynu llawfeddygaeth ar y galon yn uniongyrchol. Gwnâi Comisiwn Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru hynny ar ei ran. Byddai gwybodaeth bellach yn cael ei darparu ar gyfer y Pwyllgor ynglŷn â'r niferoedd y darperir ar eu cyfer.
- Nid oedd yna ddigon o wasanaethau arbenigol ar anhwylderau bwyta ledled Cymru gyfan a thynnwyd sylw at hyn yn y Strategaeth Iechyd Meddwl i Blant a Phobl Ifanc. Os nad oedd yn briodol cyfeirio achosion i'r uned iechyd meddwl leol ar gyfer plant a phobl ifanc, caent eu cyfeirio at nifer gyfyngedig o ddarparwyr y tu allan i Gymru.
- Yr oedd yr Awdurdod yn ymrwymo i gynnal gwasanaeth pediatriig yn gefn i'r gwasanaethau mamolaeth risg isel tra'u bod yn Ysbyty Cyffredinol Castell-nedd ac ar ôl iddynt drosglwyddo i Ysbyty newydd Castell-nedd Port Talbot.

## Gweithredu

- Byddai Dr Quentin Sandifer yn darparu ymateb ysgrifenedig ar fater y tocynnau rhoi'r gorau i ysmegu.
- Câi gwybodaeth ei darparu ar y cyfle i bobl ddigartref yng Nghastell-nedd Port Talbot gyrchu at wasanaethau iechyd.
- Câi ymateb ysgrifenedig ei ddarparu ar y cynnydd yn nifer yr achosion y gall theatrau llawdriniaeth ymdrin â hwy, y cynnydd yn nifer y nyrsys a'r cynnydd yn nifer y gwelyau ar gyfer llawdriniaeth ar y galon.

## **Eitem 6 Cofnodion y cyfarfod diwethaf (27 Hydref 2000)**

### **Papur SWWR-06-00(min)**

6.1 Derbyniwyd y cofnodion fel cofnod cywir o'r cyfarfod.

Diolchodd y Cadeirydd i bawb a oedd wedi cymryd rhan yn y cyfarfod, yn enwedig y cyflwynwyr a Maer Aberth am ganiatáu i'r Cynulliad ddefnyddio Queen's Hall.

**Atodiad A**

### **Negeseuon Allweddol ar Ddatblygu Proses y Rhaglenni Gwella Iechyd**

- Mae Iechyd Morgannwg yn mawr groesawu'r ffaith bod HIPs wedi'u cyflwyno yng Nghymru fel y broses newydd ar gyfer gwireddu agenda iechyd y Cynulliad. Yr ydym yn ymroi i ddatblygu proses yr HIP ymhellach er mwyn cyflawni'r amcanion deul o wella iechyd a sicrhau bod gwasanaethau iechyd o ansawdd uchel yn cael eu darparu;
- yr ydym yn cydnabod na all awdurdodau iechyd – nac yn wir yr NHS – ar eu pen eu hunain sicrhau bod iechyd pobl yn gwella. Seilir y broses HIP ar ymdriniaeth gynhwysol ac mae'n dibynnu ar bartneriaethau effeithiol rhwng yr holl bartneriaid lleol yn y maes iechyd, oddi mewn i'r NHS – Awdurdodau Iechyd/Ymddiriedolaethau/Grwpiau Iechyd Lleol ac yn y gymuned ehangach – awdurdodau lleol a'r sectorau gwirfoddol, annibynnol a phreifat. Mae'n bwysig iawn cysylltu â ac ategu prosesau a arweinir gan yr awdurdodau lleol, yn enwedig, datblygu Strategaethau Cymunedol, Cynghreiriau Iechyd Lleol ac adfywio economaidd;
- o dan y broses HIP rhaid gwneud penderfyniadau anodd ynglŷn â'r blaenoriaethau newid a datblygu; croesawn

ymrwymiad y Cynulliad i ddarparu cyllid ychwanegol ar gyfer iechyd yng Nghymru ond erys y ffaith na allwn wneud popeth y byddem yn dymuno ei wneud ac mae'n rhaid i'r partneriaid ym maes iechyd ddal y ddysgl yn wastad rhwng y blaenoriaethau cenedlaethol a osodir gan y Cynulliad a'r blaenoriaethau lleol a nodir drwy'r broses o gynnwys pobl a mudiadau lleol;

- *amserlen* - rydym wrthi'n rhoi blwyddyn un yr HIP (2000-2001) ar waith ac yn paratoi ar gyfer blwyddyn dau (2001-2002). Mae swyddogion Iechyd Morgannwg a chydweithwyr eraill yn gweithio'n agos gyda swyddogion y Cynulliad ar y ffordd orau o ddatblygu'r broses HIP a'r dogfennau HIP a fydd yn ofynnol i'r dyfodol. Hoffem ailadrodd ein hymrwymiad i gynnwys ein holl bartneriaid a buddiannau lleol ac felly yr ydym yn croesawu ac yn annog y diddordeb a ddangoswyd yn y broses HIP gan y Pwyllgorau Rhanbarth ac ACau unigol.

### **Pwyntiau Allweddol ar Raglen Gwella Iechyd Morgannwg 2000-2005**

#### ■ **Proses/Cynwysoldeb**

- Gweithredu ar ffurf Rheoli Prosiect
- Bwrdd Prosiect ar lefel y Cadeirydd i gynnwys yr holl bartner sefydliadau
- Tîm Prosiect o swyddogion allweddol o faes iechyd a llywodraeth leol
- Cytunwyd ar set o Weledigaeth a Gwerthoedd a Rennir : Nodau ac amcanion a rennir
- Nodi materion a blaenoriaethau lleol ar sail awdurdod lleol / Grp Iechyd Lleol
- Ceisio ffyrdd effeithiol o gynnwys cymunedau a phobl leol

#### ■ **Anghenion a Blaenoriaethau Lleol**

- Ffynonellau gwybodaeth allweddol

- Adroddiad y Cyfarwyddwr Iechyd y Cyhoedd

- Gwaith y Cynulliad Cenedlaethol yn Mapio Allgáu Cymdeithasol;

- Atlas Anghydraddoldebau CLILC;

- Arolwg Iechyd yng Nghymru

- Materion penodol-anghydraddoldebau lleol: rhwng awdurdodau lleol yn

nhermau  
gwasanaethau iechyd/  
cyrchu at iechyd ac  
oddi

mewn i ardaloedd  
awdurdodau lleol yn  
nhermau

cymunedau/wardiau  
sydd â statws ac  
anghenion iechyd

- amddifadiad economaidd-gymdeithasol sy'n effeithio'n uniongyrchol ar iechyd a mynediad at wasanaethau iechyd

- fformwla dyrannu adnoddau genedlaethol nad yw ar hyn o bryd yn adlewyrchu'r amrywiadau yn anghenion iechyd poblogaeth Cymru

### ■ Y Cyd-destun yn y Tymor Canolig

- Mynd i'r afael ag anghydraddoldebau mewn iechyd a gwasanaethau iechyd
- Rheoli'r galw cynyddol am ofal iechyd
- Cyflawni'r targedau gwella iechyd i Gymru-gyfan

· Cyflawni'r safonau gofal cenedlaethol

· Moderneiddio'r NHS:- - gwybodaeth/TG;

- cyfalaf;

- adnoddau dynol.

- Yr agenda Llywodraethu Clinigol.

### ■ Cynnydd Tymor-Byr : Blaenoriaethau Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot ar gyfer 2000/2001

Yn 2000/01 gwelir blwyddyn un HIP Morgannwg yn cael ei rhoi ar waith. Cytunwyd ar y blaenoriaethau o ran newid a datblygu gwasanaethau. Mae'r adnoddau ychwanegol a dderbyniwyd oddi wrth y Cynulliad Cenedlaethol ar gyfer blaenoriaethau HIP wedi galluogi Iechyd Morgannwg i fuddsoddi tua £10 miliwn eleni. Dyrannwyd y swm hwn ar sail pro rata i ardaloedd y 3 Grp Iechyd Lleol. Mae Grwpiau Iechyd Lleol Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot, yn gweithio gyda phartneriaid lleol, wedi cytuno ar y blaenoriaethau gweithredu ar gyfer y flwyddyn hon ac maent yn cynnwys y canlynol:

- Ymateb i bwysau ar y gwasanaethau, gan }- mae'r ddau Grp Iechyd Lleol

gynnwys cynlluniau o eiddo'r Ymddiriedolaeth, } wedi cyllido cynlluniau a fwriadwyd

y  
Gwasanaethau  
Cymdeithasol  
a'r Sector } i  
ateb galw  
brys, cwtogi'r  
rhestrau

Gwirfoddol }  
aros a gwella  
ansawdd

- Gwasanaethau Canser-mae'r ddau Grp Iechyd Lleol yn



buddsoddi  
yng  
Nghanolfan  
Ganser De  
Orllewin  
Cymru er  
mwyn  
cyrraedd y  
safonau isaf  
sy'n ofynnol

- Gwasanaethau Plant- mae'r ddau Grp Iechyd Lleol yn

targedu  
gwasanaethau  
ar gyfer plant  
ag anghenion  
arbennig

- Clefyd y Galon-mae'r ddau Grp Iechyd Lleol yn

gweithio tuag  
at roi'r  
Fframwaith  
Gwasanaeth  
Cenedlaethol  
ar waith yn  
lleol gan  
gynnwys:-

cynyddu'r  
ddarpariaeth  
gofal  
sylfaenol  
(Abertawe)

cynnydd yn y  
gwasanaeth  
Cardiolegydd  
a'r cymorth  
diagnostig  
yng Nghastell-  
nedd Port  
Talbot

- Iechyd Meddwl-mae'r ddau Grp Iechyd Lleol yn

datblygu Tîm  
Iechyd  
Meddwl  
Cymuned a  
gwasanaethau  
argyfwng 24  
awr;

- gwell  
gwasanaethau  
i'r henoed sâl  
eu meddwl yn  
Abertawe

- Gwasanaethau'r Henoed ac Ailsefydlu-cynllun ailalluogi yng Nghastell-

nedd Port Talbot

- cynllun  
ailsefydlu yn  
y gymuned yn  
Abertawe